Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cynllun Heddlu a Throseddu 2025-2029

## Gwella Ymddiriedaeth a Hyder mewn Plismona Lleol



# Cynnwys

» **Rhagair** **04**

» **Fy ngweledigaeth: Gwella Ymddiriedaeth a Hyder y Cyhoedd mewn Plismona Lleol** **05**

» **Fy egwyddorion arweiniol ar gyfer cynllun tosturiol a chynhwysol** **06**

- Gweithio mewn partneriaeth 06
- Llywodraethu ac Atebolrwydd 08
- Cynaliadwyedd 09
- Ymgysylltu a Bod yn Llais y Gymuned 10
- Dull wedi'i deilwra, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn 11

» **Fy Mlaenoriaethau ar gyfer Plismona a Throseddu** **12**

- **Blaenoriaeth 1: Cefnogi Dioddefwyr ac Atal Erledigaeth** **12**
  - Pam mae o bwys? 12
  - Beth ydym am ei weld? 13
  - Sut bydd perfformiad yn cael ei fesur? 13
- **Blaenoriaeth 2: Cefnogi Cymunedau Diogel trwy Atal Niwed** **14**
  - Pam mae o bwys? 14
  - Beth ydym am ei weld? 15
  - Sut bydd perfformiad yn cael ei fesur? 15
- **Blaenoriaeth 3: Cefnogi System Gyfiawnder Mwy Effeithiol** **16**
  - Pam mae o bwys? 16
  - Beth ydym am ei weld? 17
  - Sut bydd perfformiad yn cael ei fesur? 17

» **Adnoddau** **18**

Darparu Adnoddau 18

Cyllid 18

Plismona Effeithiol 19

Atebolrwydd a Thryloywder 19

Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio 19

» **Gwasanaethau yr Wyf yn eu Hariannu** **20**

» **Sut Gallwch Chi fy nghefnogi i Gyflawni'r Cynllun Hwn** **21**

Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa 21

Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa 22

Ymwelwyr Lles Anifeiliaid 22

Y Panel Sicrhau Ansawdd 23

Llysgenhadon Ieuenctid 23

Y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr 23


» **Cyd-destun** **24**

Ein Hardal Ni 24

Ein Pobl 24

Rolau a Chyfrifoldebau 25

Yr Hyn a Ystyriwyd Gennym 27



# Rhagair

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno fy nhrydydd Cynllun Heddlu a Throseddu fel y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a etholwyd yn lleol. Mae'n anrhydedd fawr, ac rwyf wedi bod yn falch o wasanaethu cymunedau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys dros yr wyth mlynedd diwethaf yn fy swydd. Mae'r cyfan sydd wedi'i gyflawni hyd yma yn ganlyniad ymdrech ar y cyd gan bartneriaethau cryf a ffurfiwyd ledled ardal gwasanaeth yr heddlu. Rwy'n parhau'n ymrwymedig i weithio'n agos gyda'r gymuned, busnesau a phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau gwelliannau yn y system blismona a chyfiawnder troseddol yn ein hardal.

Yn fy nhymor cyntaf yn y swydd, dywedais fod ymddiriedaeth y cyhoedd yng ngwasanaeth yr heddlu yn bwysig iawn i mi. Os nad oes gan y cyhoedd ymddiriedaeth yn yr heddlu i weithredu'n deg ac yn foesegol, maent yn llai tebygol o gynorthwyo'r heddlu i gynnal y gyfraith. Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu gyda'r weledigaeth gyffredinol i wella ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Dyfed-Powys yn ogystal â'r system cyfiawnder troseddol gyfan dros y pedair blynedd nesaf, a byddaf yn gweithio'n ddiflino ar y nod hwn. Byddaf yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn weladwy i'r cyhoedd gyda thryloywder llwyr wrth wneud penderfyniadau.

Byddaf yn hyrwyddo lleisiau dioddefwyr a'r rhai sydd â phrofiadau bywyd i lunio ein polisïau a'n darpariaeth leol o wasanaethau. Wrth inni geisio amddiffyn pobl rhag niwed a chefnogi cymunedau diogel, rhaid inni sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ac nad ydynt yn cael eu hailadrodd. Mae plant a phobl ifanc ymhlith yr unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, a'n dyletswydd ni yw eu diogelu rhag niwed a chynnal ac amddiffyn eu hawliau. Drwy gydol y cynllun hwn fe welwch fy ymrwymiad i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc, drwy ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Rwyf i, ynghyd â'm cymheiriaid ledled Cymru, wedi ymrwymo i gefnogi gwaith ar draws y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru i ddileu hiliaeth, gan weithio tuag at Gymru wrth-hiliol. Ein nod yw bod pawb sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn cael eu trin yn deg, gyda pharch a bod eu hanghenion yn cael eu bodloni.

Wrth i gymunedau newid ac wrth i dechnoleg ddatblygu, mae'n rhaid i'n gwasanaethau fod yn ddeinamig a dangos hyblygrwydd gyda pharodrwydd i addasu. Byddaf yn sicrhau bod penderfyniadau yn gynaliadwy ac yn canolbwyntio ar y dyfodol tra'n ceisio gwerth gorau i'r cyhoedd.

Rwy'n annog pawb sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun hwn i sicrhau eu bod yn cyflawni'r safonau proffesiynol uchaf posibl, ac yn gofyn iddynt eu hunain ac eraill 'sut y bydd y gweithgaredd hwn yn effeithio ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd?'.

Edrychaf ymlaen at roi gwybod i chi, y cyhoedd, am ein cynnydd.





**Dafydd Llywelyn**
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

# Fy ngweledigaeth: Gwella Ymddiriedaeth a Hyder y Cyhoedd mewn Plismona Lleol

Fy ngweledigaeth gyffredinol ar gyfer 2025-29 yw gwella ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Dyfed-Powys a'n system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd.

## Mae hyn yn golygu:

Ein bod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth heddlu a system gyfiawnder sy'n sicrhau bod pobl:

### Yn cael eu gwarchod

Rydym yn amddiffyn pobl rhag trosedd, ac yn ceisio cyfiawnder i ddioddefwyr.

### Yn cael eu parchu

Rydym yn cael ein hystyried yn deg, yn barchus ac yn ddiduedd ym mhopeth a ddywedwn ac a wnawn.

### Yn cymryd rhan

Rydym yn cefnogi pobl o bob cefndir i gyfrannu at sut rydym yn gweithio.

### Yn cael eu cynrychioli

Rydym yn cynrychioli'r cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu, yn hyrwyddo cyfle cyfartal, yn dileu gwahaniaethu ac yn annog hyder yn ein swyddogion, staff a gwirfoddolwyr.



Ein nod yw dangos hyn trwy welliannau mewn:

- Canfyddiadau'r cyhoedd o ddiogelwch a nifer y troseddau.
- Ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn yr heddlu.
- Ymgysylltu cymunedol ystyrlon sy'n arwain at weithredu.
- Canfyddiad cyhoeddus cadarnhaol o'r heddlu fel cyflogwr i bawb.



# Fy Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Cynllun Tosturiol a Chynhwysol

Yn fy ymrwymiad i greu effaith gadarnhaol ddwys a pharhaol, mae'r Cynllun Heddlu a Throseddu hwn wedi'i angori mewn egwyddorion craidd sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd ac yn arwain y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd. Mae'r egwyddorion hyn, neu'r llinynnau aur, yn rhan annatod o'r cynllun, gan sicrhau ein bod yn ymdrechu'n gyson i ddiwallu anghenion y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, gan ddarparu'r safonau uchaf o ofal, cynwysoldeb, ac ymatebolrwydd i ddioddefwyr troseddau. Drwy'r egwyddorion arweiniol hyn, rwy'n ymdrechu i sicrhau gwasanaeth heddlu a system cyfiawnder troseddol fwy cyfiawn, tosturiol a chydnerth.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Rwy'n angerddol am weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a chymunedau i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl, gan wella eu profiad a'u canlyniadau. Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Parhau i gryfhau fy nghysylltiadau â phartneriaid lleol i gefnogi cynnydd tuag at ddull cydgysylltiedig ac 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus'.
- Parhau i gyfrannu, trwy'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel ac is-grwpiau, at yr ymdrech genedlaethol i alluogi gweithio mewn partneriaeth yn lleol i gefnogi cymunedau diogel, cryf a hyderus.
- Sicrhau bod Timau Plismona Cymunedol ac Atal Heddlu Dyfed-Powys yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau partner lleol i ddatblygu a darparu gweithgareddau datrys problemau ac atal troseddau.
- Hyrwyddo ymagwedd a arweinir gan dystiolaeth ac ymchwil at waith ymyrryd ac atal. Byddaf yn gwella partneriaethau rhwng Heddlu Dyfed-Powys a sefydliadau academaidd i drosi a gwreiddio ymchwil academaidd i arferion plismona.
- Parhau i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn bodloni rhwymedigaethau'r Gofyniad Plismona Strategol.
- Cefnogi ymdrechion Plismona Gwrthderfysgaeth Cymru, gan sicrhau negeseuon cyson, hyfforddiant ac atgyfeiriadau i fecanwaith PREVENT.
- Parhau i weithio gyda chydweithwyr i archwilio a gwerthuso cyfleoedd cydweithio newydd yn gyson â gwasanaethau heddlu eraill yng Nghymru a ledled y DU.
- Parhau i ddylanwadu ac ymgysylltu'n rhagweithiol â gweithgareddau Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

# Ymdrechion a Rennir ar gyfer Plismona yng Nghymru

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru a Phrif Gwnstabliaid Cymru (sy'n ffurfio corff o'r enw Plismona yng Nghymru), yn gobeithio y bydd cydweithio ar lwyth craidd o ymdrechion ar y cyd yn creu newid parhaol i bobl Cymru. Am y tymor hwn yn y swydd, rydym wedi ymrwymo i:

- **Weithio tuag at Gymru wrth-hiliol**, trwy gyflwyno Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, gan geisio mynd ati i adnabod a dileu'r systemau, y strwythurau a'r prosesau sy'n cynhyrchu canlyniadau tra gwahanol i unigolion a grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- **Roi llais i gymunedau** drwy annog dinasyddion i gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau craffu a throsolwg, chwilio am ffyrdd o godi llais y bobl sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn gymdeithasol, a chynrychioli safbwyntiau cymunedau Cymru ar faterion y DU.
- **Sicrhau gwerth am arian** i'n cymunedau drwy gydweithio ar drefniadau rhannu gwasanaethau lle bo modd. Sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn cael ei hyrwyddo a'i ystyried gyda phob trefniant.
- **Weithio gyda'n gilydd i gyflawni Cymru Heb Drais** drwy ddatblygu strategaethau atal sylfaenol ac ymyrraeth gynnar i roi terfyn ar drais ymhlith plant a phobl ifanc, a mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a merched drwy ddull system gyfan iechyd cyhoeddus.
- **Weithio tuag at gyflawni Cymru sy'n ystyriol o drawma** drwy gyfrannu at ddull cymdeithasol o ddeall, atal a chefnogi effeithiau trawma ac adfyd.



# Llywodraethu ac Atebolrwydd

Rwy'n dryloyw ac yn atebol i bobl sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Meithrin diwylliant cynhwysol lle mae amrywiaeth yn cael ei chynrychioli a chydraddoldeb yn egwyddor sylfaenol, trwy gefnogi gwaith Heddlu Dyfed-Powys a fy swyddfa o gyflawni ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd.
- Ymgymryd â gwaith i ddeall a mynd i'r afael â gwahaniaethau yn ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr heddlu. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithiolrwydd ein dulliau craffu i helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder.
- Cefnogi'r Prif Gwnstabl i sefydlu diwylliant moesegol a phroffesiynol cryf sy'n galluogi ac yn croesawu cynhwysiant, ac sy'n herio ymddygiad amhriodol ac anghynhwysol pan fydd yn digwydd.
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i sicrhau fy mod yn cyflawni fy nyletswyddau i gefnogi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau a darparu system cyfiawnder troseddol effeithiol ac effeithlon.
- Bod yn atebol i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, gan roi sylw dyledus i argymhellion y maent yn eu gwneud ar fy mhenderfyniadau allweddol.
- Gwneud defnydd llawn o'n Cyd-bwyllgor Archwilio, i sicrhau bod gennyf i a'r Prif Gwnstabl weithdrefnau rheoli busnes, gweithdrefnau ariannol a threfniadau llywodraethu cadarn ar waith.
- Parhau i weithio gyda gwirfoddolwyr, fforymau a phaneli sy'n fy nghefnogi i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau heddlu effeithlon, effeithiol a chyfreithlon.
- Monitro canlyniadau ac ansawdd y cymorth a ddarperir gan y gwasanaethau yr wyf yn eu comisiynu, gan gynnwys ceisio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau i helpu i lywio datblygiad gwasanaethau.
- Gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i ymateb yn gymesur i unrhyw adroddiadau annibynnol a gyflwynir i Heddlu Dyfed-Powys gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, canllawiau a gwersi a ddysgwyd gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, ac unrhyw gyrff rheoleiddio eraill.
- Sicrhau bod fy swyddfa a'r Prif Gwnstabl yn gosod budd y cyhoedd uwchlaw ein henw da yn gyson, drwy fanteisio ar y cyfle i gynnal craffu cyhoeddus agored a gonest.
- Sicrhau bod y cyhoedd yn cael ywybodaeth sydd ei hangen arnynt i asesu perfformiad eu gwasanaethau plismona a throseddu a gwneud dewisiadau gwybodus a phriodol wrth ddefnyddio'r gwasanaethau hyn.



# Cynaliadwyedd

Gan ddefnyddio tair conglfaen cynaliadwyedd (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol), fy nod yw adeiladu llwyfan cadarn y gall Heddlu Dyfed-Powys ei ddefnyddio i ddarparu ei wasanaethau. Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:


- Parhau i lobïo am setliad ariannu teg a thymor hwy i Heddlu Dyfed-Powys. Byddaf hefyd yn parhau i gynnal y ddadl i Gymru gael dyraniad teg o gyllid yn deillio o unrhyw adolygiad cynhwysfawr o wariant, adolygiad o fformiwla ariannu'r heddlu neu ddosbarthiad perthnasol arall o adnoddau.
- Parhau i ddatblygu a gwreiddio diwylliant arloesol o ran cynaliadwyedd, drwy leihau ein hôl troed carbon a sicrhau bod ein hystâd, ein fflyd cerbydau, cyflenwadau, gwasanaethau, prosesau a gweithdrefnau yn amgylcheddol gyfrifol.
- Sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir ac a brynir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardaloedd a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys.
- Cefnogi Heddlu Dyfed-Powys i recriwtio a chadw gweithlu amrywiol o wirfoddolwyr, staff a swyddogion sy'n cynrychioli ein cymunedau ac sy'n datblygu ac yn cynnal sgiliau, yn sicrhau hirhoedledd a pharhad.
- Ysgogi effeithlonrwydd a arweinir gan dystiolaeth trwy gydweithio a dysgu.
- Sicrhau stiwardiaeth effeithiol o ystâd yr heddlu drwy gefnogi gwydnwch economaidd ac ecolegol, gan sicrhau bod aliniad ag amgylcheddau naturiol bioamrywiol ac ecosystemau gweithredol iach.
- Parhau i gefnogi buddsoddiad mewn gallu dadansoddol, prosiectau datgarboneiddio, datblygiadau technolegol a rhaglenni moderneiddio arloesol i sicrhau gwelliannau mewn cynhyrchiant a hybu arbedion effeithlonrwydd.
- Annog gweithio mewn partneriaeth i ymateb i'r argyfwng hinsawdd, o ran cynaliadwyedd a pholisïau ecogyfeillgar. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gennym y gallu a'r capasiti ar y cyd i ymdrin ag effaith newid yn yr hinsawdd, megis llifogydd a digwyddiadau eraill o dywydd garw.
- Parhau i hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith ein partneriaid a chyflogwyr lleol, gan gydnabod bod cyflog byw teg nid yn unig yn gwella tegwch cymdeithasol a chynaliadwyedd economaidd, ond hefyd yn annog arferion amgylcheddol gyfrifol ar gyfer dyfodol cynaliadwy.



# Ymgysylltu a Bod yn Llais y Gymuned

Dylai'r bobl sy'n byw yn ardal Heddlu Dyfed-Powys fod yn rhan o benderfyniadau sydd o bwys iddynt. Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Blaenoriaethu ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sy'n eu grymuso i rannu eu profiadau amrywiol a llywio'r ffordd y mae gwasanaethau plismona a chyfiawnder troseddol yn cael eu darparu ar gyfer pobl ifanc, ym myd addysg ac yn y gymuned ill dau.
- Gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod dulliau hygyrch ac amrywiol o ymgysylltu â Heddlu Dyfed-Powys a fy swyddfa i.
- Sicrhau bod safbwyntiau pobl fel aelodau o'r gymuned a'r rhai sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol (fel dioddefwyr, tystion neu bobl sy'n troseddu) yn cael eu hadlewyrchu yn ein cynlluniau ymgynghori.
- Cryfhau ein perthynas â'n cymunedau amrywiol trwy annog plismona cymunedol rhagweithiol a gweithgareddau ymgysylltu, fel yr amlinellir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd.
- Cynyddu cyfleoedd i gysylltu, gwrando ac ymgysylltu â chymunedau a busnesau lleol, gan gynnwys gweithgarwch ymgysylltu ar y cyd â Phanel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.
- Annog cysylltiadau cryfach rhwng plismona yn y gymdogaeth, partneriaid a chynrychiolwyr cymunedol, i sicrhau bod gweithgareddau datrys problemau ac atal troseddau yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol.
- Parhau i gefnogi'r Prif Gwnstabl i fuddsoddi mewn cynyddu gallu Heddlu Dyfed-Powys i ddarparu gwasanaethau plismona drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cydweithio â Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid i hyrwyddo rolau gwirfoddoli, i annog y rhai sydd â phrofiad bywyd i gefnogi ac ymgysylltu â chyflawni blaenoriaethau cyfiawnder troseddol yn lleol a chydgynllunio gwasanaethau lle bo'n briodol.



# Dull wedi'i deilwra, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Rydym yn deall pwysigrwydd teilwra ein gwaith, a'r gwasanaethau rydym yn eu comisiynu, i brofiadau ac anghenion unigryw unigolion. Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Cydnabod effaith trawma ar unigolion, gan gefnogi'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw i greu amgylcheddau diogel a chefnogol sy'n hybu iachâd a grymuso.
- Sicrhau bod y gwasanaeth yn cadw at y Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Gyhoeddus, i sicrhau bod teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth oherwydd trasiedi gyhoeddus yn cael eu trin â thosturi, sensitifrwydd a pharch.
- Sicrhau ymatebion diwylliannol sensitif, wedi'u teilwra i bob dioddefwr, tyst ac unigolyn sy'n troseddu.
- Gweithio i fynd i'r afael â'r anghenion a'r heriau penodol a wynebir gan wahanol rywiau, gan sicrhau mynediad teg i'n gwasanaethau.
- Rhoi unigolion wrth galon ein darpariaeth gwasanaeth, gan barchu eu dewisiadau a'u cynnwys yn y prosesau gwneud penderfyniadau.
- Gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid i oruchwylio'r gwaith o ddarparu'r dull Gofal Cywir, Unigolyn Cywir, gan sicrhau bod pobl o bob oed sydd ag anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol yn cael ymateb gan yr unigolyn cywir, sydd â'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r profiad cywir i ddiwallu eu hanghenion orau.
- Ceisio sicrwydd bod swyddogion a staff yn gallu cael cymorth lles priodol i'w galluogi i barhau i wasanaethu'r cyhoedd â thosturi, dewrder, parch, empathi a balchder.
- Yn unol â'm dyletswydd statudol i ddiogelu plant a phobl ifanc a hybu eu lles, sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys a'n partneriaid cyfiawnder yn mabwysiadu dull sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn.



# Fy Mlaenoriaethau ar gyfer Plismona a Throseddu

## Blaenoriaeth 1: Cefnogi Dioddefwyr ac Atal Erledigaeth

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dioddefwr yn cael ei gydnabod, ei ddiogelu, ei gefnogi, a'i fod yn cael gwasanaeth sydd wedi'i deilwra i'w anghenion unigol.

### Pam mae o bwys?

- Rhaid bodloni pedair egwyddor cyfiawnder gweithdrefnol i gefnogi dioddefwyr drwy'r broses cyfiawnder troseddol. Y pedair egwyddor yw llais, niwtraliaeth, parch, a chymhellion dibynadwy. Dywedodd y cyhoedd wrthym na fyddant yn adrodd am droseddau os nad ydynt yn ymddiried y bydd camau'n cael eu cymryd o ganlyniad.
- Tynnodd y cyhoedd sylw hefyd at y ffaith bod dilyniant gwael ar ôl adrodd am drosedd yn effeithio'n negyddol ar eu hymddiriedaeth a'u hyder yn Heddlu Dyfed-Powys.
- Mae dyletswydd arnaf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i adolygu cydymffurfiaeth sefydliadau cyfiawnder troseddol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau. Rwyf hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod y safonau gofal a nodir yn Siarter y Tystion yn cael eu cynnal.
- O dan y Cod Dioddefwyr, mae gan ddioddefwr yr hawl "i gael ei atgyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr a chael gwasanaethau a chymorth wedi'u teilwra [i'w] hanghenion". Dywedodd y cyhoedd wrthym pa mor hanfodol yw'r gwasanaethau dilynol annibynnol hyn i gefnogi dioddefwyr yn effeithiol.
- Mae angen diogelu'r rhai sydd wedi dioddef trosedd rhag erledigaeth dro ar ôl tro. Rhaid canolbwyntio hefyd ar amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau rhag troseddu ac erledigaeth dro ar ôl tro.
- Mae atal trais yn erbyn menywod a merched, yn benodol cam-drin domestig, treisio a throseddau rhyw difrifol, yn flaenoriaeth i bob un ohonom.
- Mae system gyfiawnder effeithiol sy'n gweithio i bawb yn hyrwyddo cyfranogiad gweithredol dioddefwyr. Mae barn y rhai sydd â phrofiad bywyd o fod yn ddioddefwr trosedd yn helpu i wella a chraffu ar wasanaethau dioddefwyr ar draws y system cyfiawnder troseddol.



## Beth ydym am ei weld?

1. Y bydd ein hasiantaethau cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymorth, a phawb sy'n ymgysylltu â dioddefwyr, yn dangos pedair egwyddor allweddol cyfiawnder gweithdrefnol yn eu harferion.
2. Y bydd arferion, polisïau a phrosesau yn hwyluso ac yn annog ymgysylltiad a chyfranogiad dioddefwyr ar hyd eu taith cyfiawnder troseddol.
3. Y cofnodir troseddau yn unol â safonau cenedlaethol i sicrhau bod dioddefwyr yn cael yr ymateb a'r gefnogaeth briodol mewn modd amserol.
4. Y bydd hawliau dioddefwyr a thystion yn cael eu hyrwyddo a'u cynnal ar bob cam o'u taith drwy'r system cyfiawnder troseddol.
5. Y bydd dioddefwyr yn teimlo'n hyderus yn y gefnogaeth a gânt gan Heddlu Dyfed-Powys, gan dderbyn cyswllt amserol ar ôl rhoi gwybod am drosedd.
6. Y bydd cymorth personol ac arbenigol ar gael i bob dioddefwr, waeth beth yw eu lleoliad neu natur y drosedd.
7. Y bydd dioddefwyr cam-drin domestig, treisio a throseddau rhyw difrifol yn cael ymateb prydlon a phriodol, yn unol â modelau gweithredu cenedlaethol.
8. Y bydd cyfleoedd ar gyfer unigolion sy'n dioddef aml-droseddau yn eu herbyn yn cael eu lleihau trwy ddiogelu effeithiol.
9. Y bydd partneriaid diogelu a gwasanaethau cymorth yn darparu cymorth cofleidiol, system gyfan i bobl agored i niwed, yn enwedig plant sy'n ddioddefwyr camfanteisio rhywiol, cam-drin ac aflonyddu rhywiol.
10. Y bydd ein cyfathrebiadau a'n gweithredoedd yn dangos na chaiff trais yn erbyn menywod a merched ei oddef y tu mewn na tu allan i blismona.
11. Y bydd dioddefwyr, tystion a goroeswyr i rannu eu hadborth, i graffu a chynorthwyo i wella gwasanaethau dioddefwyr, mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma.

## Sut bydd perfformiad yn cael ei fesur?

Byddaf yn gofyn i'r Prif Gwnstabl, partneriaid a fy swyddfa i ddangos effaith ar y canlynol:

1. Bodlonrwydd dioddefwyr ar y ffordd y cawsant eu trin.
2. Cyfranogiad dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol.
3. Cydymffurfio â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref a Safonau Cenedlaethol Cofnodi Troseddau.
4. Cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr.
5. Amlder ac ansawdd diweddariadau i ddioddefwyr.
6. Mynediad at wasanaethau cymorth ac ymyriadau, ymgysylltu â nhw ac adborth arnynt.
7. Ymatebion amserol a phriodol i adroddiadau o gam-drin domestig, treisio a throseddau rhyw difrifol.
8. Lefelau dioddef aml-droseddau yn eu herbyn a mesurau diogelu.
9. Adrodd, adnabod ac ymateb i niwed a achosir gan gamfanteisio ar bobl fregus, yn enwedig plant.
10. Adrodd, adnabod ac ymateb i niwed a achosir gan droseddau trais yn erbyn menywod a merched.
11. Gwelliannau gwasanaeth o ganlyniad i ddysgu o brofiad dioddefwyr a goroeswyr.

# Blaenoriaeth 2: Cefnogi Cymunedau Diogel trwy Atal Niwed

Rwyf wedi ymrwymo i atal niwed i unigolion a chymunedau a achosir gan droseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod yn agored i niwed drwy fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi niwed.

## Pam mae o bwys?

- Mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a phartneriaid ddyletswydd i weithio gyda'i gilydd i atal a mynd i'r afael â throseddu, lleihau anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, aildroseddu a chamddefnyddio sylweddau.
- Mae plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cydnabod bod plant yn wahanol i oedolion, a bod ganddynt wahanol anghenion a gwendidau. Rwy'n frwdfrydig dros sicrhau bod gwasanaethau plismona a chyfiawnder troseddol yn darparu ymyriadau i blant a phobl ifanc sy'n canolbwyntio ar ddargyfeirio ac atal, mewn lleoliadau addysg ac yn y gymuned, ill dau.
- Dywedodd y cyhoedd wrthym yr hoffent weld camau gorfodi ac atal llymach o ran cyflenwi cyffuriau. Un o flaenoriaethau'r Prif Gwnstabl yw gwneud ein hardal yn elyniaethus i'r rhai sy'n delio â chyffuriau.
- Mae plismona gweladwy yn hynod o bwysig i'n trigolion, gan ei fod yn hybu teimladau o ddiogelwch ac yn gwella hyder i hysbysu am droseddau. Mae'n hanfodol bod ffocws newydd Heddlu Dyfed-Powys ar blismona cymunedol ac atal yn cael ei gynnal, a bod ein cymunedau'n teimlo'r effaith.
- Mae Plismona yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth i atal niwed a gweithio gydag eraill i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi niwed. Cytunodd ein preswylwyr y dylid canolbwyntio'n gryf ar atal niwed ac ymdrin â throseddau lefel isel cyn iddynt waethygu.
- Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaethau strategol ar gyfer pob sefydliad cyfiawnder troseddol.
- Blaenoriaeth Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yw datblygu'r defnydd o gamau gweithredu ataliol cynnar a dulliau datrys problemau.
- Mae'n ddyletswydd arnaf i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am y Gofyniad Plismona Strategol er mwyn sicrhau ymateb effeithiol a chymesur i'r bygythiadau cenedlaethol.



## Beth ydym am ei weld?

1. Y bydd unigolion, cymunedau a sefydliadau yn wrthwynebol ac yn wydn i effaith troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y byd ffisegol a'r byd seiber.
2. Y bydd gwasanaethau plismona yn weladwy ac yn hygyrch, gan ddiwallu anghenion y cymunedau trefol a gwledig y maent yn eu gwasanaethu.
3. Y bydd yr heddlu a phartneriaid yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddatrys problemau a chyflawni gweithgareddau atal troseddau.
4. Y bydd mentrau diogelwch ffyrdd yn cael eu harwain gan dystiolaeth ac yn effeithiol wrth fynd i'r afael â phrif achosion damweiniau ac anafiadau ar y ffyrdd.
5. Y bydd gweithgarwch tarfu ar droseddau yn lleihau'r bygythiad o droseddu trefnedig difrifol ac yn atal pobl rhag cymryd rhan ynddynt am y tro cyntaf neu o'r newydd.
6. Y bydd dulliau amlasiantaeth o ddargyfeirio a thrin sy'n nodi ac yn mynd i'r afael ag anghenion sylfaenol yn lleihau niwed cyffuriau yn ein cymunedau.
7. Y bydd gweithgarwch atal yn diogelu pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu hecsbloetio'n droseddol, yn economaidd neu'n rhywiol.
8. Y bydd gweithwyr a busnesau yn cael eu hamddiffyn rhag bygythiad troseddau manwerthu, gan gynnwys lladrad, seiberdroseddu, twyll a cham-drin gweithwyr manwerthu.
9. Y bydd ein gwasanaethau plismona a ddarperir i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg a chymunedau yn meithrin ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu.
10. Y bydd gweithgareddau atal yn diwallu anghenion lleol, gan ddarparu ymyrraeth cyn gynted â phosibl.
11. Y byddwn yn deall ac yn gallu ymateb i fygythiadau cenedlaethol a materion lleol, megis terfysgaeth, anhrefn cyhoeddus ac argyfyngau sifil, a allai effeithio ar gymunedau yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.

## Sut bydd perfformiad yn cael ei fesur?

Byddaf yn gofyn i'r Prif Gwnstabl, partneriaid a fy swyddfa i ddangos effaith ar y canlynol:

1. Data troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chanfyddiadau'r cyhoedd o ddiogelwch yn y byd ffisegol a'r byd seiber.
2. Canfyddiadau'r cyhoedd a data Gwasanaeth ar weledd yr heddlu, ymdrin â galwadau, amseroedd ymateb a hygyrchedd mewn ardaloedd gwledig a threfol.
3. Gweithgareddau datrys problemau ac atal troseddau sy'n effeithio ar gymunedau lleol.
4. Nifer yr adroddiadau am bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd.
5. Bygythiad troseddu trefnedig difrifol.
6. Data aildroseddu ac adborth defnyddwyr ar leihau niwed yn dilyn gweithgareddau dargyfeirio a thrin.
7. Mentrau sy'n atal camfanteisio.
8. Mentrau sy'n cefnogi busnesau lleol.
9. Addysg a gweithgaredd dargyfeiriol sy'n effeithio ar ymddiriedaeth a hyder plant a phobl ifanc yn yr heddlu.
10. Unigolion wedi'u dargyfeirio o weithgarwch troseddol.
11. Mynediad at y galluoedd a nodir yn y Gofyniad Plismona Strategol.

# Blaenoriaeth 3: Cefnogi System Gyfiawnder Mwy Effeithiol

Rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan ein cymunedau, drwy ddylanwadu ac eirioli dros newid a gwella'r profiad i ddioddefwyr a thystion.

## Pam mae o bwys?

- Mae gennyf ddyletswydd statudol i weithio gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol i ddarparu system cyfiawnder troseddol effeithlon ac effeithiol ar gyfer ein hardal heddlu.
- Mae mynd ar drywydd cyflawnwyr yn ddi-baid yn un o amcanion trosfwaol yr elfen Trais yn Erbyn Menywod a Merched o'r Gofyniad Plismona Strategol.
- Gall menywod yn y system gyfiawnder fod yn fregus iawn a chanddynt ystod o anghenion cymhleth y canfuwyd eu bod yn wahanol i anghenion dynion sy'n troseddu.
- Mae'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru (2019) yn nodi strategaeth sy'n atal plant rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, gan leihau eu cysylltiad â'r system a gwneud y mwyaf o gyfleoedd dargyfeirio i'w cefnogi i fyw bywydau heb droseddu. Mae'r weledigaeth ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn mabwysiadu dull 'plentyn yn gyntaf', gan sicrhau bod ymdrechion yn canolbwyntio ar y plentyn yn hytrach nag ar wasanaethau. Mae ymateb yn y modd hwn er budd pennaf y plentyn i ddiwallu ei anghenion unigol.
- Gellir lleihau aildroseddu trwy ddeall y dirwedd droseddol a rhoi ymyriadau ar waith. Yn ardal Heddlu Dyfed-Powys, llety yw un o'r anghenion mwyaf cyffredin ar gyfer pobl sydd wedi troseddu.
- Mae ymwybyddiaeth o gyfiawnder adferol a mynediad ato yn hawl i ddioddefwyr o dan y Cod Dioddefwyr. Mae mwy i'w wneud i gyflawni hyn yn ardal Dyfed-Powys.
- Mae oedi yn y broses gyfiawnder yn gwaethygu'r effaith ar ddioddefwyr a thystion, yn ogystal â chynyddu'r risg y bydd achosion yn dymchwel. Dywedodd preswylwyr wrthym fod ymddiriedaeth yn y system gyfiawnder yn dibynnu ar ganfyddiadau o degwch, atebolrwydd ac amseroldeb.
- Mae hyder yn y system gyfiawnder yn un o ddangosyddion llesiant cenedlaethol Cymru.



## Beth ydym am ei weld?

1. Y bydd gan drigolion a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys ymddiriedaeth a hyder yn y system cyfiawnder troseddol leol.
2. Sicrwydd bod y canlyniadau cywir i bawb dan sylw yn cael eu darparu mewn modd amserol.
3. Y cymerir camau cyflym yn erbyn y rhai sy'n cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol sy'n achosi'r niwed mwyaf.
4. Y bydd ein hymyriadau yn cael eu harwain gan anghenion, gan arwain at lai o bobl, yn enwedig plant a phobl ifanc, yn aildroseddu neu'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.
5. Y bydd hawliau plant yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn, gan eu grymuso i gymryd rheolaeth o'u bywydau a'u dyfodol.
6. Y bydd dull adferol yn cael ei gynnig fel mater o drefn, yn ogystal ag unrhyw ganlyniad ffurfiol, i ddioddefwyr o unrhyw fath o drosedd.
7. Ein bod yn hyrwyddo ymagwedd sy'n ystyriol o drawma, gwrth-hiliol, ymatebol i rywedd, a arweinir gan seicoleg sy'n cydnabod bregusrwydd plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n gwella eu cyfleoedd bywyd.
8. Y bydd menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn cael eu cefnogi drwy ddull system gyfan, gan arwain at lai o droseddwyr benywaidd yn dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.
9. Lle mae'n rhaid cadw unigolion yn nalfa'r heddlu, y byddant yn cael eu cadw mewn amgylcheddau diogel a chedwir eu hawliau.

## Sut bydd perfformiad yn cael ei fesur?

Byddaf yn gofyn i'r Prif Gwnstabl, partneriaid a fy swyddfa i ddangos effaith ar:

1. Ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol.
2. Amseroldeb a phriodoldeb canlyniadau troseddol.
3. Ymddygiad troseddol y rhai sy'n cyflawni trais yn erbyn menywod a merched, troseddu trefnedig difrifol a throseddau eraill sy'n camfanteisio ar bobl sy'n agored i niwed.
4. Nifer y rhai sy'n dod i'r system am y tro cyntaf a'r nifer sy'n aildroseddu, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc.
5. Nifer a phriodoldeb datrysiadau y tu allan i'r llys, dargyfeirio, addysg neu weithgaredd ymyrryd a roddir i blant.
6. Ymwybyddiaeth a chyfranogiad mewn cyfiawnder adferol.
7. Anghymesuredd o fewn y system cyfiawnder troseddol.
8. Merched sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.
9. Cydymffurfio â hawliau unigolion yn y ddalfa, ac adborth gan unigolion yn y ddalfa.



# Adnoddau

## Darparu Adnoddau

Fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mae gennyf gyfrifoldeb hollbwysig i reoli cyllid Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn cynnwys gosod y praesept a datblygu cyllideb flynyddol sy'n adlewyrchu anghenion gweithredol plismona a blaenoriaethau'r cymunedau.

Rwy'n gweld dyrannu cyllid ac adnoddau fel conglfaen i'm cyfrifoldebau. Mae'n effeithio'n uniongyrchol ar ein gallu i gynnal diogelwch y cyhoedd a gwasanaethu ein cymunedau amrywiol yn effeithiol.

## Cyllid

Ar gyfer 2024/25, ariannwyd y gofyniad cyllidebol o £143.9miliwn o £79.4miliwn (55%) o braesept a £64.5miliwn (45%) o grantiau'r llywodraeth.

O hyn, dyrannais £141.1miliwn i'r Prif Gwnstabl ar gyfer darparu plismona ac i ariannu'r rhaglen gyfalaf. Dyrannwyd £2.8miliwn i'm swyddfa, i'm galluogi i gyflawni fy nyletswydd statudol yn ogystal â chefnogi a darparu gwasanaethau comisiynu ar draws ardal gwasanaeth yr heddlu.

Mae adnoddau ariannol yn parhau i fod yn her sylweddol. Yn ogystal â'r £42miliwn o arbedion blynyddol sydd wedi'u cyflawni ers 2010/11, bydd angen arbedion ychwanegol i sicrhau y gellir mantoli'r gyllideb yn y tymor canolig i hir, gyda nifer o faterion yn creu ansicrwydd ariannol. Sefydlwyd 'Tîm Adolygu Gwasanaeth' yn 2022 i adnabod gwelliannau gweithredol a chyfleoedd i wneud arbedion. Mae'r tîm yma yn ystyried arferion gorau a rhesymeg sy'n seiliedig ar dystiolaeth i newid rhaglenni a buddsoddiad. Mae eu gwaith yn mynd rhagddo gan ganolbwyntio'n glir ar arloesi a chynhyrchiant ac arbedion effeithlonrwydd.

### Tabl: Cyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25

| Cyllideb refeniw | 2024/25 (£miliwn) |
|---|---|
| Cyllideb Net Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | 2,836 |
| Cyllideb Net Gwasanaeth yr Heddlu | 141,065 |
| **Gofyniad Cyllideb** | **143,901** |
| Grant yr Heddlu (Swyddfa Gartref) | (56,125) |
| Trethi Annomestig Cenedlaethol | (192) |
| Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru) | (8,220) |
| Praesept y Dreth Gyngor | (79,364) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(143,901)** |

**Am y manylion cyllid diweddaraf, ewch i:**

## Plismona Effeithiol

Mae gwasanaeth heddlu sydd wedi'i reoli'n dda ac wedi'i ariannu'n briodol yn galluogi'r Prif Gwnstabl i sicrhau bod gennym ddigon o Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu ar lawr gwlad i ymateb i ddigwyddiadau'n brydlon. Mae hefyd yn darparu ar gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, sy'n hanfodol ar gyfer addasu i heriau newydd a thueddiadau troseddu sy'n esblygu megis seiberdroseddu a thwyll.

Byddwn yn parhau i wneud buddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn technoleg, offer ac yn ein hystâd, a fydd yn gwella galluoedd gweithredol ac yn sicrhau bod gan y gwasanaeth yr adnoddau digonol i wynebu'r dirwedd blismona newidiol.

## Atebolrwydd a Thryloywder

Fel eich Comisiynydd, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn gyfrifol er mwyn sicrhau gwerth am arian. Mae tryloywder mewn rheolaeth ariannol yn hanfodol er mwyn meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd. Rwy'n ymdrechu i sicrhau bod y dyraniad adnoddau yn glir ac yn gyfiawnadwy, a bod adroddiadau rheolaidd ac ymgysylltu â'r gymuned ynghylch sut mae cyllid yn cael ei ddefnyddio. Manylir ar hyn yn y cynllun ariannol tymor canolig blynyddol. Mae atebolrwydd o'r fath nid yn unig yn atgyfnerthu hyder yn ein gwasanaeth heddlu ond hefyd yn grymuso trigolion i gymryd rhan mewn trafodaethau am flaenoriaethau plismona a lefelau praesept.

## Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio

Rwyf wedi addo fy nghefnogaeth barhaus i nod y llywodraeth i gyrraedd sero net erbyn 2050. Mae yna gynllun cynaliadwyedd a datgarboneiddio cynhwysfawr ar draws y Gwasanaeth sy'n cael ei yrru gan yr adrannau ystadau a fflyd. Mae'r gwaith hwn wedi symud ymlaen dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi gweld gwelliannau ac arbedion sylweddol ar draws y maes gwasanaeth. Mae prosiect fferm solar cyffrous yn ein pencadlys yng Nghaerfyrddin, yn y cyfnod cynllunio, a fydd yn sicrhau arbedion cylchol sylweddol ac yn helpu i leihau ein hôl troed carbon.



# Gwasanaethau yr Wyf yn eu Hariannu

**Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) yn amlinellu nifer o ddyletswyddau allweddol ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Yn ogystal â'u rôl blismona graidd, mae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gylch gwaith i leihau trosedd ac anhrefn, ac mae ganddynt bwerau comisiynu a chyllid i'w galluogi i wneud hyn. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i gomisiynwyr ddyfarnu grantiau i unrhyw sefydliad neu gorff a all helpu i gyflawni eu blaenoriaethau diogelwch cymunedol.**

Dylai comisiynu ganolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau, am y gwerth gorau a sicrhau adolygiad parhaus o'r llwyddiant y mae'r gwasanaethau hyn yn ei gyflawni wrth fynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr a throseddwyr troseddau.

Mae fy Strategaeth Comisiynu yn nodi'n fanwl fy null o gomisiynu ac ariannu darpariaeth gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys yr egwyddorion allweddol, llwybrau comisiynu posibl, trefniadau llywodraethu a monitro, rheoli risg, dyrannu cyllideb ac archwilio. Mae'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun hwn yn llywio fy mhenderfyniadau o ran pa gyllid sydd ar gael i'r heddlu a phartneriaid i gyflawni gostyngiadau mewn troseddau ac anhrefn ac i hyrwyddo diogelwch cymunedol.

Bydd y gwaith o gomisiynu gwasanaethau yn cael ei lunio drwy gydol oes fy nghynllun, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu halinio â'm blaenoriaethau strategol. Byddaf yn canolbwyntio ar y canlynol:


- Sicrhau proses agored a thryloyw sy'n rhoi sail resymegol glir ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Sicrhau bod y broses gomisiynu a'r trefniadau monitro yn gymesur â chost y gwasanaeth neu'r gweithgaredd a ddarperir.
- Sicrhau gwerth am arian trwy weithio mewn partneriaeth ar flaenoriaethau a rennir a chanlyniadau cynaliadwy, lle bo'n briodol.
- Cynnal dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, er mwyn sicrhau bod effaith yr arian sy'n cael ei wario yn cael ei fesur a'r gwerth yn cael ei asesu.
- Dyfarnu cytundebau tymor canolig i'r tymor hir er mwyn sicrhau cynaladwyedd darpariaeth gwasanaeth.

Bydd perfformiad a chyfraniad gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu monitro drwy drefniadau llywodraethu fy swyddfa, gyda darparwyr gwasanaeth yn cael eu dwyn i gyfrif yn ogystal ag yn llywio fy ngwaith craffu ar wasanaeth yr heddlu ac asiantaethau partner.

Mae cyfanswm y gyllideb gomisiynu yn cynnwys grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder at ddiben comisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr, ynghyd â dyraniad o'm cyllid craidd. Dyrennir grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unol â fformiwla ariannu ar sail poblogaeth. Yn ogystal â hyn, rwyf wedi a byddaf yn parhau i sicrhau cyllid ychwanegol wedi ei selio ar dystiolaeth o anghenion.

Byddaf hefyd yn sicrhau bod cyllid ar gael i gymunedau, partneriaid ac elusennau drwy grantiau amrywiol i gefnogi prosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni fy mlaenoriaethau a gwella ansawdd bywyd ein trigolion.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau yr wyf yn eu comisiynu ar gael ar fy ngwefan.



# Sut Gallwch Chi fy nghefnogi i Gyflawni'r Cynllun Hwn

Mae fy ngwirfoddolwyr yn chwarae rhan bwysig wrth fy helpu i gyflawni fy ngweledigaeth drwy wella tryloywder a chynyddu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Mae fy ngwirfoddolwyr yn fy nghefnogi i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu â phroffesiynoldeb, cyfreithlondeb ac uniondeb trwy adolygu gwasanaethau a ddarperir gan wasanaeth yr heddlu.

Mae pob cynllun yn chwarae rhan hanfodol wrth fy helpu i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif. Mae fy ngwirfoddolwyr yn gweithredu fel llais y cyhoedd ac yn craffu ar wahanol feysydd o'r gwasanaeth, megis mynychu dalfeydd yn bersonol, i sicrhau bod hawliau unigolion yn y ddalfa yn cael eu cynnal, a chraffu ar gofnodion yr heddlu i ystyried priodoldeb defnydd swyddogion o rym neu stopio a chwilio.

Rwyf am sicrhau bod fy ngwirfoddolwyr yn cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o un o'm cynlluniau gwirfoddoli, ewch i'm gwefan sy'n rhoi mwy o fanylion am yr hyn y mae pob un o'r cynlluniau yn ei olygu a sut i wneud cais.

Mae pob gwirfoddolwr yn cael ei gefnogi gyda hyfforddiant yn y gwaith, cyfeillio, mân dreuliau a phwynt cyswllt yn fy swyddfa. Maent hefyd yn cael gwobrau credyd amser o dan y cynllun Tempo, y gellir ei wario ar ystod eang o weithgareddau, cynhyrchion a gwasanaethau fel gwobr am eu hymrwymiad.

Isod mae crynodeb o bob cynllun a'r hyn y mae'n ei olygu.



## Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Mae'n ofyniad statudol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu gael Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Mae fy Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa air-achredig yn rhoi sicrwydd annibynnol i mi bod pobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn cael eu trin yn briodol ac yn deg. Mae'r cynllun yn cynnwys aelodau o'r gymuned leol yn arsylwi ac yn adrodd ar yr amodau y caiff pobl eu cadw mewn gorsafoedd heddlu. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn darparu gwiriad annibynnol ar y ffordd y mae staff y ddalfa yn cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â phobl a gedwir yn y ddalfa, gyda'r nod o gynyddu hyder y cyhoedd yn y materion hyn.

Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn ymweld â gorsaf heddlu leol mewn parau, yn ddirybudd, ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos i wirio lles yr unigolion yn y ddalfa a'r amodau y maent yn cael eu cadw.





## Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa

Diben cyffredinol Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yw sicrhau bod gweithdrefnau cadw'r heddlu sy'n cael eu gweithredu yn Heddlu Dyfed-Powys yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol.

Mae'r panel yn cyfarfod bob deufis i gynnal adolygiadau o gofnodion dalfa sampl ar hap, gan gynnwys archwilio cadw pobl ifanc yn y ddalfa, defnyddio noeth-chwiliad, monitro lefel risg cadw yn y ddalfa, defnyddio grym a phynciau eraill y mae'r panel yn gofyn amdanynt.

Darperir unrhyw arsylwadau i'r gwasanaeth i gael sylwadau a chyhoeddir adroddiad terfynol ar fy ngwefan.



## Ymwelwyr Lles Anifeiliaid

Diben y cynllun lles anifeiliaid yw galluogi aelodau penodedig o'r gymuned leol a gweithwyr proffesiynol o sefydliadau lles anifeiliaid i arsylwi, rhoi sylwadau ac adrodd ar les anifeiliaid sy'n ymwneud â gwaith yr heddlu. Maen nhw'n edrych ar yr amodau y caiff cŵn heddlu eu cartrefu, eu hyfforddi, eu cludo a'u lleoli, gyda'r nod o sicrhau mwy o ddealltwriaeth a hyder yn y materion hyn. Mae gwirfoddolwyr yn rhoi hyder i'r cyhoedd a minnau bod cŵn yr heddlu yn cael gofal a'u hyfforddi'n drugarog, yn foesegol ac yn dryloyw.

Mae'r cynllun yn disgwyl i'r holl swyddogion cŵn gael o leiaf un ymweliad mewn unrhyw gyfnod o chwe mis.

**Am fanylion am ein cynlluniau gwirfoddoli a sut i wneud cais, ewch i:**



## Y Panel Sicrhau Ansawdd

Mae'r Panel Sicrwydd Ansawdd yn craffu ar ansawdd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd, mewn modd tryloyw ac annibynnol, ar ran y cymunedau yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r panel yn cyfarfod bob deufis i gynnal adolygiadau o gofnodion sampl ar hap o ryngweithio rhwng yr heddlu a'r cyhoedd, gan gynnwys achosion stopio a chwilio, digwyddiadau lle defnyddiwyd grym, ymdrin â galwadau, cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu ac ymchwiliadau. Mae'r panel yn darparu mewnwelediadau unigryw o safbwynt lleygwyr ar ansawdd rhyngweithio'r heddlu â'r cyhoedd.

Darperir unrhyw arsylwadau i'r gwasanaeth i gael sylwadau a chyhoeddir adroddiad terfynol ar fy ngwefan.

## Llysgenhadon Ieuenctid

Mae fy nghynllun Llysgenhadon Ieuenctid yn cynnwys llysgenhadon 14-25 oed ac yn cynrychioli ystod o grwpiau ieuenctid cymunedol a sefydliadau o bob rhan o ardal Dyfed-Powys. Mae'r cynllun yn fy helpu i feithrin perthnasoedd â grwpiau ieuenctid presennol, cynghorau ieuenctid a fforymau ar draws y rhanbarth, gyda llawer ohonynt eisoes yn cael eu cynrychioli ar y Cynllun Llysgenhadon Ieuenctid, fel y gall pobl ifanc lywio fy mhenderfyniadau mewn perthynas â phlismona a throseddu.

Rwyf bob amser yn croesawu pobl ifanc 14-25 oed sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro neu Bowys i ddod yn un o'm llysgenhadon.

## Y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr


Mae fy Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn cynnwys cronfa ddata o dros 50 o ddioddefwyr troseddau o bob rhan o ardal gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys. Gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a phartneriaid eraill, mae aelodau'r fforwm yn fy nghefnogi i osod dioddefwyr wrth galon y system cyfiawnder troseddol. Mae eu barn yn fy helpu i sicrhau bod llais y rhai sydd â phrofiadau bywyd yn dylanwadu ar ddatblygu a chraffu ar wasanaethau i ddioddefwyr troseddau.

Anogir unrhyw ddioddefwyr trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol (fel y'u diffinnir o dan y Cod Dioddefwyr) ac unigolion y mae rhywun y maent yn agos ato wedi dioddef trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ac maent wedi'u cefnogi drwy'r broses, i ymuno â'r fforwm.

# Cyd-destun

## Ein Hardal Ni

Mae ardal Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys yr ardal fwyaf yng Nghymru a Lloegr, gan gyfrif am dros ddwy ran o dair o dir Cymru. Mae'n gyfrifol am blismona pedair ardal awdurdod lleol, gan gwmpasu dau fwrdd iechyd, dwy derfynfa fferi ryngwladol, dau barc cenedlaethol a dros 8,500 milltir o ffyrdd.




## Ein Pobl

Yn gyffredinol, mae gan y rhanbarth boblogaeth gynyddol ac amrywiol. Yn ôl data'r cyfrifiad diwetharaf (2021), poblogaeth breswyl y pedair sir a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys oedd 515,899. O'r 19 grŵp ethnig a gofnodwyd trwy'r cyfrifiad, pobl Gwyn Prydeinig oedd y ganran fwyaf o'r boblogaeth (94.1%), ac yna pobl yn y grwpiau ethnig Gwyn: eraill (2.5%) ac Asiaidd: eraill (0.5%).

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i ymdrechu i wella amrywiaeth ei weithlu er mwyn sicrhau ein bod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Erbyn mis Mawrth 2024, roedd 47% o'r gweithlu cyfan yn fenywod, ond roedd menywod yn cael eu cyflogi'n bennaf fel staff heddlu (62%, o gymharu â 37% o swyddogion). Dywedodd y rhan fwyaf o weithlu Heddlu Dyfed-Powys eu bod yn Wyn Seisnig/ Cymreig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon (70%). Nododd 1.4% Gwyn arall, ac roedd 27% yn ffafrio peidio â dweud neu beidio â chwblhau rhan honno'r holiadur.

Mae 29% o'n cymunedau yn gallu siarad Cymraeg; 16% ym Mhowys, 45% yng Ngheredigion, 40% yn Sir Gaerfyrddin a 17% yn Sir Benfro. Ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 1,966 (87%) o weithlu Heddlu Dyfed-Powys yn gallu siarad Cymraeg i o leiaf lefel un, sy'n cynnwys enwau, enwau lleoedd, geirfa yn ymwneud â'r heddlu, cyfarchion ac ymadroddion sylfaenol. Roedd 20% yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol ac 20% yn gallu sgwrsio'n llawn.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd gan Heddlu Dyfed-Powys 1,307 o swyddogion heddlu, 951 o staff heddlu, 40 cwnstabl gwirfoddol a 24 o wirfoddolwyr.



# Rolau a Chyfrifoldebau

Fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mae gennyf nifer o ddyletswyddau statudol:

- Gosod cyfeiriad strategol a blaenoriaethau ar gyfer y Gwasanaeth.
- Cynrychioli ac ymgysylltu â chymunedau a gweithredu fel llais y cyhoedd ar faterion plismona a throseddu.
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol i sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol ehangach yn effeithiol ac yn effeithlon o ran cadw pobl yn ddiogel, cefnogi dioddefwyr a dod â phobl o flaen eu gwell.
- Comisiynu gwasanaethau i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel ac i gefnogi dioddefwyr a phobl fregus eraill.
- Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau heddlu yn effeithiol.
- Cyhoeddi gwybodaeth i'ch galluogi i asesu fy mherfformiad a pherfformiad Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys.
- Penodi, ac os oes angen, diswyddo'r Prif Gwnstabl.
- Delio â chwynion ffurfiol a dderbynnir yn erbyn y Prif Gwnstabl (blaenorol neu gyfredol).
- Cyhoeddi asesiad blynyddol o berfformiad ymdrin â chwynion.
- Gosod praesept blynyddol yr heddlu a chyllideb yr heddlu.
- Cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu ac Adroddiad Blynyddol.
- Darparu datganiad blynyddol ar berfformiad Heddlu Dyfed-Powys yn erbyn mesurau trosedd a phlismona cenedlaethol Llywodraeth y DU.
- Gweithio'n agos gyda'r Panel Heddlu a Throseddu i'w galluogi i graffu'n effeithiol a chefnogi gwaith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.
- Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am ddiogelu ein cymunedau drwy ddarparu plismona effeithlon, effeithiol ac ymatebol. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol, rheoli adnoddau a gwariant gan y gwasanaeth heddlu ac am ymchwilio i gwynion a materion ymddygiad yn erbyn swyddogion heddlu (islaw rheng Prif Gwnstabl) a staff.



Mae'r Panel Heddlu a Throseddu yn banel annibynnol sy'n cynnwys aelodau a enwebwyd gan awdurdodau lleol ac aelodau annibynnol.

**Bydd y Panel yn:**

- Craffu ar fy mhenderfyniadau ar ran y cyhoedd.
- Rhoi cefnogaeth imi arfer fy swyddogaethau'n effeithiol.
- Adolygu a gwneud argymhellion ar fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ac Adroddiad Blynyddol drafft.
- Adolygu a gwneud argymhellion ar gynigion mewn perthynas â'r praesept plismona a'r gyllideb ddrafft flynyddol.
- Trin a datrys cwynion yn fy erbyn.
- Cynnal gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer penodiadau arfaethedig y Prif Gwnstabl a'm swyddogion statudol.

## Y Gofyniad Plismona Strategol

Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn nodi barn yr Ysgrifennydd Cartref ynghylch beth yw'r bygythiadau cenedlaethol presennol, a'r galluoedd plismona cenedlaethol sydd eu hangen i wrthsefyll y bygythiadau hynny. Y saith bygythiad a nodwyd yn y Gofyniad Plismona Strategol cyfredol (2023) yw:

1. Trais yn erbyn Menywod a Merched
2. Terfysgaeth
3. Troseddau Difrifol a Throseddu Trefniadol
4. Digwyddiad Seiber Cenedlaethol
5. Cam-drin plant yn rhywiol
6. Anhrefn Cyhoeddus
7. Argyfyngau Sifil

Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn cefnogi'r Prif Gwnstabl a minnau i sicrhau ein bod yn cyflawni cyfrifoldebau cenedlaethol Heddlu Dyfed-Powys. Mae'n ein galluogi i gynllunio'n effeithiol gyda'n gilydd ar gyfer heriau sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau cwnstabliaeth. Mae'r Gofyniad Plismona Strategol hefyd yn cefnogi fy ngallu, a'm rhwymedigaeth statudol, i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am y gallu i gyflawni'r swyddogaethau hyn.



# Yr Hyn a Ystyriwyd Gennym

Wrth lunio'r cynllun hwn, mae fy swyddfa wedi ystyried tirwedd genedlaethol (Cymru a'r DU) o ran plismona a throseddu drwy waith ymchwil ac ymgynghori manwl, gan gynnwys:

- Blaenoriaethau llywodraethau Cymru a'r DU.
- Strategaethau plismona cenedlaethol (Cymru a'r DU), gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol.
- Adborth gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.
- Blaenoriaethau partneriaid lleol.
- Mewnwelediadau o felinau trafod plismona ac arferion da o feysydd eraill.
- Adborth gan y cyhoedd, swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys a Phanel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.
- Dogfennau strategol allweddol Heddlu Dyfed-Powys.

Byddaf yn parhau i adolygu'r cynllun hwn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion pobl Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys; a'i fod yn adlewyrchu'n ddigonol unrhyw newidiadau mewn bygythiadau cenedlaethol, fel y nodir mewn unrhyw ddiwygiadau i'r Gofyniad Plismona Strategol yn y dyfodol.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cysylltwch â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys:

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu,
Blwch SP 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

01267 226440

opcc@dyfed-powys.police.uk

dyfedpowys-pcc.org.uk/cy

## Ymgysylltwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol: @dpopcc

Mae'r Cynllun Heddlu a Throseddu wedi ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir darparu copiau testun o'r Cynllun mewn ieithoedd eraill, yn ôl y galw. Cysylltwch a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu am ragor o fanylion.



